

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Llun, 13eg Ionawr, 2025 at 2.00 pm

Ar hyn o bryd nododd y pwyllgor y cynnwys a rhoddwyd gwybod iddynt y dylid cyhoeddi'r adroddiad terfynol ar gyfer 2025/26 erbyn diwedd mis Chwefror 2025.

https://www.youtube.com/live/LI8qVo_qhtw?si=INhmKSHXW7U8mq2I&t=4332

5. Dyddiadur y Cyngor 2025-26

Cyflwynwyd drafft o gyfarfodydd i'r pwyllgor ar gyfer 2025/26. Dywedodd y Rheolwr Democratiaeth Leol wrth gynghorwyr y glynwyd at y protocolau arferol ynghylch dyddiadau ac amserau a ffefrir ar gyfer cyfarfodydd lle'r oedd hynny'n bosibl, a lle bo modd, nid oedd unrhyw gyfarfodydd wedi'u trefnu ar gyfer gwyliau'r ysgol fel yr oedd yr aelodau wedi gofyn amdanynt yn flaenorol.

Rhoddwyd cyfle i'r pwyllgor roi adborth ar y dyddiadur arfaethedig cyn iddo gael ei gytuno'n ffurfiol yn y Cyngor Llawn ym mis Ionawr 2025 a chytunodd i'r dyddiadur ei roi i'r Cyngor.

https://www.youtube.com/live/LI8qVo_qhtw?si=C_kVoVg3myDnx3yS&t=4738

6. Cyfarfodydd Cyngor Llawn – barn ar amser cychwyn

Gofynnwyd y cwestiwn i'r pwyllgor i sefydlu a oedd awydd i adolygu amser dechrau'r Cyngor Llawn ymhellach.

Rhoddwyd gwybod i'r pwyllgor bod gofyniad i adolygu amseriad cyfarfodydd y Cyngor o leiaf unwaith yn ystod tymor y Cyngor. Cwblhawyd hyn yn dilyn yr etholiad ym mis Mai 2022 lle cytunodd yr aelodau i ganiatáu i bob pwyllgor a'i aelodaeth gytuno ar amseriad y cyfarfod sy'n gweddu orau i aelodaeth pob pwyllgor unigol, a chytunodd y Cyngor Llawn i gadw amser dechrau'r Cyngor am 2pm.

Cafwyd dadl ymhlith cynghorwyr gydag amryw o opsiynau ar gyfer amseru cyfarfodydd y Cyngor Llawn yn cael eu cyflwyno ond ni chytunwyd ar gonsensws. Yn yr un modd, ystyriodd yr aelodau opsiwn i arolygu cynghorwyr ymhellach ar amseru cyfarfodydd y Cyngor, ond cytunodd y pwyllgor na fyddai hyn yn casglu unrhyw wybodaeth newydd nad oedd arolygon blaenorol eisoes wedi'i chasglu.

Cytunwyd nad oedd angen unrhyw waith pellach yn y maes hwn.

https://www.youtube.com/live/LI8qVo_qhtw?si=PulqJdr-cPMsTeD4&t=4927

7. Trafodaeth ar Bleidleisio mewn cyfarfodydd

Fe wnaeth cynghorydd godi ymholiad gyda'r pwyllgor ynglŷn â pham nad yw pleidleisiau unigol i gynghorwyr yn cael eu cofnodi fel mater o drefn, a bod gwybodaeth ar gael ar y wefan gyhoeddus i drigolion weld sut mae pob cynghorydd wedi pleidleisio ar eitem benodol.

Rhoddwyd gwybod i'r pwyllgor na fu trafodaeth yn hanesyddol ar gofnodi pleidleisiau aelodau unigol mewn cyfarfodydd ac mae'r cyfansoddiad ond yn mynnu yr ymdrinnir â phleidleisio drwy fwyafrif. Wrth symud i gyfarfodydd hybrid y cyngor cafodd y prosesau a'r rheolau o fewn y cyfansoddiad eu trosglwyddo i fabwysiadu technolegau newydd bryd hynny. Mae cyfleuster yn y cyfansoddiad sy'n caniatáu gwneud cais am bleidleisiau a gofnodwyd, lle mae aelodau'n cefnogi'r egwyddor o gyhoeddi pleidleisiau ar gyfer eitem benodol yng nghyfarfodydd llawn y cyngor. Mae'r cofnod o bleidleisiau aelodau unigol wedi'i gynnwys yn y cofnod ar gyfer y cyfarfod yn ogystal â bod ar gael ar recordiad y cyfarfod ar-lein.

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaid held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Llun, 13eg Ionawr, 2025 at 2.00 pm

Rhodddwyd gwybod i'r Aelodau nad yw pleidleisiau aelodau unigol yn cael eu cofnodi'n electronig ar hyn o bryd oherwydd dehongliad y cyfansoddiad. Mae cyfleuster i gofnodi pleidleisiau aelodau yn electronig os yw'n rhywbeth y byddai'r pwyllgor yn dymuno ei ystyried.

Dyweddodd y Rheolwr Democratiaeth Leol wrth y pwyllgor fod adolygiad o'r llwyfan meddalwedd a ddefnyddir ar gyfer cyfarfodydd y cyngor eisoes ar y gweill a bod llwyfannau newydd posibl i gynnal cyfarfodydd y cyngor wedi'u nodi ac yn cael eu harchwilio i'w cyflwyno yn y Cyngor. Byddai hyn yn gwella profiad y defnyddiwr terfynol gyda ffrydiau byw â nod tudalen a manau yn y fideos gydag enwau cynghorwyr ac eitemau ar yr agenda yn ogystal â throshaenau o ganlyniadau pleidleisio. Byddai hefyd yn tynhau'r system ar gyfer pleidleisio ac yn ei gwneud yn haws adnabod aelodau nad ydynt wedi pleidleisio, yn ogystal ag awtomeiddio ymatebion i'r wefan o ddewisiadau pleidleisio.

Hyd nes y bydd yr adolygiad hwnnw wedi'i gwblhau, ni ellir cadarnhau y byddai cynnal y gwaith i gofnodi pleidleisiau aelodau unigol yn gyraeddadwy heb fod angen galwad am bleidleisiau ar lafar ar bob eitem ar yr agenda a fyddai'n ychwanegu cryn dipyn o amser i'r cyfarfod. Cytunwyd yn y cyfamser y bydd unrhyw bleidleisiau a gofnodir sy'n digwydd yng nghyfarfodydd llawn y cyngor yn cael eu mewnbynnu â llaw, a'u hadlewyrchu ar y wefan fel y bydd golwg ar sut y gallai edrych ar gael ac yn ategu'r manylion yn y cofnodion ar gyfer cyfarfod.

https://www.youtube.com/live/LI8qVo_qhtw?si=4ptAU89uTOznJU03&t=5440

8. Dyddiad y cyfarfod nesaf – 7fed Ebrill 2024

The meeting ended at Time Not Specified